




Ar ôl marwolaeth Brenin Harri cafodd Llywelyn wahoddiad i goroni Edward I ond ni aeth. 7 mlynedd ar ôl llofnodi Cytundeb Trefaldwyn, gwrthododd Llywelyn â thalu gwrogaeth i'r Brenin Edward I.




Yn 1270 ymosododd Llywelyn ar amddiffynfeydd Castell Caerffili a'u llosgi yn ystod anghydfod gyda Gilbert de Clare. Brwydrodd Gilbert de Clare yn ôl yn gryf a gorfodi Llywelyn i dynnu'n ôl o Forgannwg cyn pen dwy flynedd.




Cafodd Eleanor ei rhyddhau o'i chaethiwed a phriododd Llywelyn yng nghadeirlan Caerwrangon ym mis Hydref, y flwyddyn ar ôl Cytundeb Aberconwy. Rhoddodd Brenin Edward I Eleanor i ffwrdd a thalu am y wledd briodas.




Yr oedd cytundeb Aberconwy, a lofnodwyd ym mis Tachwedd yn dilyn dal Eleanor, yn caniatáu i Llywelyn gadw'r teitl 'Tywysog Cymru'. Ddau ddiwrnod yn ddiweddarach, yn Rhuddlan, tyngodd Llywelyn lw o ffyddlondeb i Edward I.




Pan roedd Llywelyn tua 52, priododd Eleanor de Montford drwy ddirprwy. Wrth deithio mewn llong o Ffrainc i ogledd Cymru ym mis Rhagfyr, cafodd Eleanor ei chipio a'i chadw'n wystl am 3 blynedd.




Yn dilyn marwolaeth Dafydd llofnododd Llywelyn a Harri gytundeb Woodstock, gan gytuno i rannu rheolaeth dros rannau o Wynedd i'r gorllewin o afon Conwy, ond gyda Harri'n rheoli'r rhannau i'r dwyrain.




Pan roedd Llywelyn tua 22 oed, bu rhyfel rhwng ei ewythr — Dafydd ap Llywelyn a Brenin Harri'r III. Oherwydd cefnogaeth Llywelyn cafodd ei enwi yn etifedd i Dafydd pan fu farw Dafydd ddwy flynedd yn ddiweddarach heb fab.




Ar ôl 11 mlynedd o alw ei hun yn Dywysog Cymru, o'r diwedd cafodd Llywelyn ei gydnabod felly gan Frenin Harri'r III yng Nghytundeb Trefaldwyn. Roedd yn rhaid iddo dalu tua £20,000 i'r brenin am y cytundeb hwn.




Ddeng mlynedd ar ôl llofnodi cytundeb Woodstock, roedd Llywelyn wedi adennill rheolaeth dros y tir i'r dwyrain o afon Conwy, ac adeiladodd gastell yn y coed ger Ewlo.




Tair blynedd ar ôl ymosod ar Gastell Caerffili, dechreuodd Llywelyn adeiladu Castell Dolforwyn i amddiffyn ei dir yng Nghanolbarth Cymru, er gwaethaf llythyr gan Edward I yn ei wahardd rhag gwneud hynny.



Bedair blynedd ar ôl eu priodas, cafodd Llywelyn ac Eleanor ferch, Gwenllïan, a aned ar 19 Mehefin. Bu Eleanor farw yn ystod yr enedigaeth a bu Llywelyn farw 6 mis wedyn.



Pan roedd tua 35 oed, dechreuodd Llywelyn alw ei hun yn Dywysog Cymru. Cynhaliodd gyfarfod o arweinwyr Cymru a dyngodd lw o deyrngarwch iddo yn hytrach nag i Frenin Lloegr.



Roedd Llywelyn a Brenin Edward yn anghytuno ynghylch defnyddio cyfraith Cymru neu gyfraith y Gororau i setlo anghydfod pwysig am dir. Arweiniodd hyn at ryfel gwta bedair blynedd ar ôl Cytundeb Aberconwy.

